OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 3339 (Cy.302) (C.120)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 2003 (Cychwyn Rhif 1 ac Arbedion) (Cymru) 2006

*Wedi'i wneud - - 12 Rhagfyr 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 128(4) a 9 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003(**1**).

### Enwi a Dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 2003 (Cychwyn Rhif 1 ac Arbedion) (Cymru) 2006.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2003.

### Dod i rym

**2.** Yn ddarostyngedig i Erthygl 3, daw adran 63 o'r Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2007.

### Arbedion

**3.** Mae adrannau 42A(1), 43(6B) a 47(3A) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**2**), fel maent yn gymwys i unrhyw flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2007 neu cyn hynny, i barhau i weithredu mewn perthynas â Chymru fel pe nas gwnaethpwyd y diwygiadau i'r adrannau hynny gan adran 63 o'r Ddeddf.

(**1**) 2003 p.26.
(**2**) 1988 p.41.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*D. Elis-Thomas*

12 Rhagfyr 2006

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dod â darpariaethau adran 63 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i rym ar 1 Ebrill 2007. Mae'r adran hon yn diddymu'r rhyddhad ardrethi gorfodol a disgresiynol yn y cynllun rhyddhad ardrethi gwledig (a sefydlwyd gan ddarpariaethau yn adrannau 42A(1), 43(6B) a 47(3A) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ar gyfer Cymru drwy ddiwygio'r darpariaethau presennol fel mai i Loegr yn unig y maent yn gymwys.

Mae Erthygl 3 yn gwneud arbedion fel bod yr adrannau nas diwygiwyd o Ddeddf 1988 yn parhau i weithredu, mewn perthynas â blynyddoedd ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2007 neu cyn hynny, fel pe na bai adran 63 o Ddeddf 2003 wedi cael ei dwyn i rym.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf sy'n gymwys o ran Cymru wedi'u dwyn i rym drwy orchymyn cychwyn a wnaed gan y Prif Ysgrifennydd Gwladol cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y ddarpariaeth* | *Y dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adrannau 83, 92(1), 100(1), (2) a (4) i (8), 101 (yn rhannol), 107, 108, 111, a 127(1) (yn rhannol); a pharagraffau 31, 36 i 39 a 65 o Atodlen 7. | 18 Tachwedd 2003 | 2003/2938 |
| Adran 127(1) (yn rhannol); a pharagraffau 27 and 33(2) a (4) o Atodlen 7. | 1 Ebrill 2004 | 2003/2938 |
| Adrannau 62(11) a 127(1) (yn rhannol); a pharagraffau 20, 21, 25(4) i (6) a 26(3) o Atodlen 7. | 25 Tachwedd 2004 | 2004/3132 |